Hen Gwestiynau Arholiad

**Cwestiynau Eraill**

(Gaeaf 2014)

**10.** Mae $n$fed term dilyniant rhif *(number sequence)* wedi'i ddynodi gan $t_n$. Mae $(n + 1)$fed term y dilyniant yn bodloni

$$t_{n+1} = 1 - \frac{1}{t_n},$$

ar gyfer pob cyfanrif positif $n$. O wybod bod $t_1 = 4$,

*(a)* enrhifwch $t_2$, $t_3$, a $t_4$, [2]

*(b)* disgrifiwch batrwm datblygiad *(behaviour)* y dilyniant a thrwy hyn, heb wneud unrhyw gyfrifo pellach, ysgrifennwch werth $t_{50}$. [2]

(Haf 2017)

**10.** Mae $n$fed term dilyniant rhif wedi'i ddynodi gan $t_n$. Mae $(n + 1)$fed term y dilyniant yn bodloni

$$t_{n+1} = 3t_n + 1,$$

ar gyfer pob cyfanrif positif $n$. O wybod bod $t_4 = 202$,

*(a)* enrhifwch $t_1$, [2]

*(b)* esboniwch pam nad yw 29 999 999 yn gallu bod yn un o'r termau yn y dilyniant rhif hwn. [1]